**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3.

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

- Mae'r **rhan fwyaf** o ddisgyblion yn gwneud cynnydd **da** yn eu dealltwriaeth o gredoau dysgeidiaethau ac arferion wrth iddynt astudio 'ffydd yn yr ardal leol'.
- Mae'r **mwyafrif** o ddisgyblion yn gallu disgrifio'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol yn y ffyrdd y mae Cristnogion a Mwslimiaid yn addoli **yn effeithiol**.
- Mae **llawer** o ddisgyblion yn gallu holi cwestiynau a mynegi eu hymatebion a'u barnau personol yn **llwyddiannus**.
- Mae **tua hanner** o ddisgyblion B5 a 6 yn ddysgwyr annibynnol **medrus** wrth iddynt gywain gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau sy'n cynnwys arteffactau, ymwelwyr a'r rhyngrwyd er mwyn dod i gasgliadau.
- Mae'r ymchwiliad i'r 'rheol aur' mewn crefyddau wedi ysgogi **ychydig** o ddisgyblion i ysgrifennu llythyron **ardderchog** i wleidyddion lleol yn mynegi eu pryderon ynghylch gofal o'r henoed.

**Materion i gael sylw**

- Datblygu'n mhellach gallu'r dysgwyr i fyfyrio ar faterion ysbrydol.
- Gwella gallu disgyblion i esbonio a chyfiawnhau eu barnau a'u hymatebion.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

- Mae arsylwadau dosbarth yn dangos bod gan **lawer** o athrawon wybodaeth a dealltwriaeth **drylwyr** o Gristnogaeth a'r crefyddau eraill a addysgir yn ein hysgol.
- Mae cynllunio yn **dda** ac mae'r cynlluniau gwaith yn adlewyrchu gofynion y maes llafur cytûn lleol ac yn rhoi cyfleoedd **cynhwysfawr** i ddatblygu sgiliau pwnc a sgiliau generic y disgyblion.
- Mae'r athrawon yn defnyddio amrediad **rhagorol** o ddulliau addysgu ac yn herio disgyblion i gynhyrchu gwaith sy'n **gyson dda**.
- Mae amrediad o strategaethau meddwl yn eu lle, megis 'cymuned ymholi' ac mae hyn wedi gwell gallu **llawe**r o'r disgyblion i gyfrannu'n **effeithiol** i drafodaethau grŵp.

**Materion i gael sylw**

- Datblygu ac ehangu'r amrediad o strategaethau ac adnoddau sy'n datblygu sgiliau adfyfyrio'r disgyblion, e.e. llonyddu a delweddu.
- Datblygu strategaethau ysgrifennu newydd i gefnogi'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar Lefel 3 (AG) fel eu bod yn gallu '*dechrau esbonio credoau, dysgeidiaethau ac arferion a ymchwilir iddynt'* ac *'esbonio mewn termau syml sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn wahanol i rai pobl eraill'*.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau Addoli ar y Cyd Cymdeithas CYSAGau Cymru, (Mehefin 2012)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Mae'r ysgol wedi datblygu rhaglen thematig yn seiliedig ar sesiynau addoli ar y cyd ysgol gyfan ac yn yr ystafell ddosbarth. .
- Mae llawer o'r sesiynau addoli ar y cyd yn adlewyrchu agweddau o fywyd yr ysgol, yr Etifeddiaeth Gymreig a digwyddiadau byd eang. Maent yn rhoi cyfleoedd i adfyfyrio ac i rannu digwyddiadau 'hapus' a 'thrist' sy'n effeithio cymuned yr ysgol;
- Mae disgyblion yn cael cyfleoedd unwaith y tymor i gynllunio a chyflwyno sesiwn addoli ar y cyd i'r ysgol gyfan.
- Mae athrawon yn defnyddio amrediad o strategaethau i greu awyrgylch addas sy'n annog disgyblion i fyfyrio ar eu teimladau, gwerthoedd ac agweddau personol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

- Defnyddio cyfarfod Dydd Mawrth i sicrhau bod pob athro/athrawes yn ymwybodol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt er mwyn helpu'r dysgwyr i gynllunio a chyflwyno sesiynau addoli ar y cyd.
- Sicrhau cysondeb fel bod y sesiynau addoli ar y cyd a gynhelir yn y dosbarthiadau yn addas ac yn briodol ac yn ystyrlon.

| **Rhagorol** | | **Da** | ✓ | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: (Pennaeth)

Dydddiad: